



Uchelgeisiau a Rennir

Cydweithio i gyflawni'r
canlyniadau gorau i'n pobl ifanc

2019-2022



Rhagair Gwleidyddol	4
Cyd-destun Strategol	5
Gweledigaeth Strategol	6
Cyd-destun Caerffili	8
Taflen Ddata Caerffili	11
Egwyddorion Arweiniol	14
#TîmCaerffili	18
Nodi'r Heriau sydd o'n Blaenau	22
Ein Meini Prawf	28

Rhagair

“Cydweithio i gyflawni’r canlyniadau gorau i’n plant.”

Fel yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad yng Nghyngor Caerffili, rwy’n falch o fod yn rhan o sefydliad sy’n gweithio mor galed, ochr yn ochr â’n partneriaid allweddol, i gyflawni gwelliannau go iawn i ddysgwyr o bob oed a gallu ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae ein Strategaeth newydd yn adlewyrchu’r uchelgais yma a rennir i gyflawni newid cadarnhaol, ac rydw i wrth fy modd o gael bod yn gysylltiedig â’r ddogfen. Mae’r strategaeth yn cyd-fynd â phrif amcanion Llywodraeth Cymru a’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yn cynnig dolen uniongyrchol rhwng dyheadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Yma yng Nghaerffili, mae gennym ddyheadau beiddgar i ddarparu’r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr, ac rydym yn ymroddedig i wneud hyn drwy gynnig addysg, cyfleoedd dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd ar draws ein safleoedd addysg trawiadol yn yr 21ain Ganrif.

Er mwyn gwireddu’r uchelgeisiau hyn, mae angen i ni hefyd ddeall yr heriau sy’n benodol i’n cymunedau ni, a gweithio gydag ysgolion, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a Llywodraeth Cymru i ganfod y datrysiadau gorau i’r heriau hynny.

Rydym am sicrhau fod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda’r cymwysterau maen nhw’n eu haeddu, ac yn symud ymlaen i’r lleoliad o’u dewis. Mae’r strategaeth hon yn cydnabod pwysigrwydd perthnasau cryf, a’r angen am uchelgais a rennir, ynghyd â diffinio dull unigryw **#timcaerffili**.

Gall cydweithio’n llwyddiannus helpu i roi’r cyfleoedd gorau i’n plant i fyw bywydau boddhaus a gwerth chweil - maen nhw’n haeddu ein cael yn eiriolwyr iddynt, a gallwn gyflawni hyn pan fyddwn ni’n gweithio’n well gyda’n gilydd.

Y Cyngorydd Philippa Marsden

Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyd-destun Strategol


Ym mis Mawrth 2018, mabwysiadodd Cyngor Caerffili gyfres o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018-2023 yn ei Gynllun Corfforaethol.

Gweledigaeth drosfwaol y Cyngor yw'r Cynllun Corfforaethol, a gaiff ei ategu gan amcanion a blaenoriaethau clir. Yn y Cynllun, dewiswyd, **"Gwella cyfleoedd addysg i bawb"** fel Amcan Llesiant 1. Fel rhan o gynlluniau'r Cyngor i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn, nodwyd wyth canlyniad.

Nod y strategaeth hon yw cyflawni gwelliant ar draws pump o'r wyth hynny, yn benodol:

- 2 Codi safonau cyrhaeddiad.
- 3 Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac analwedigaethol fel ei gilydd er mwyn darparu cyfle cyfartal.
- 6 Gwella 'Sgiliau Digidol' i bobl o bob oed.
- 7 Gwella'r amgylchedd dysgu.
- 8 Diogelu pob plentyn a pherson ifanc er mwyn creu hinsawdd ar gyfer dysgu, yn arbennig i'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed.

Yn sail i'r cynllun gweithredu strategol sydd wedi'i atodi i'r ddogfen hon mae ystod eang o gynlluniau atodol sy'n nodi rhagor o fanylion ynghylch y gweithgarwch mae ein hysgolion, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r Gwasanaeth Addysg yn ymgymryd ag ef er mwyn gwella.



Cynllun Gwasanaeth Addysg



Cynlluniau Datblygu Busnes Ysgol



Cynllun Unigol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac Atodiad penodol i Gaerffili

Ein Gweledigaeth ar gyfer Addysg yw:

“Codi Safonau a sicrhau bod
ein dysgwyr yn **iach**, yn hyderus,
yn **falch** ac yn **uchelgeisiol**
a’u bod yn gallu elwa
ar **gyfleoedd**,
lleoliadau, a
phrofiadau
addysgol o
ansawdd.”



Cyd-destun Caerffili

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys ardal sy'n ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd, i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de. Mae'n ffinio gydag awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf tua'r gorllewin, a Blaenau Gwent a Thorfaen tua'r dwyrain.

Mae'r ardal yn gorwedd wrth galon Cymoedd y De a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae bwrdeistref sirol Caerffili yn gorchuddio tua 108 milltir sgwâr (28,000 hectar) o Gymoedd y De-ddwyrain. Mae ychydig yn hirach nag 18.6 milltir o hyd, a bron i 11.

milltir o led, ac mae wedi'i ffurfio gan gymoedd tair afon: y Rhymni, Sirhywi ac Ebwy. Mae 180,000 o breswylwyr yn byw yn y fwrdeistref sirol, ar draws cymysgedd o gymunedau dinesig a gwledig. Defnyddir tri chwarter o'r fwrdeistref sirol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Mae tua 23,000 o ddisgyblion o oed statudol yn mynd i ysgolion yn y fwrdeistref sirol, gyda thua 2000 o ddysgwyr fel arfer yng ngharfan cyfnod allweddol 4 (15 ac 16 oed). Dysgwyr Caerffili yw tua traean y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau allanol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ar draws rhanbarth y de ddwyrain bob blwyddyn.

Mae gan Gaerffili:

- 72** Ysgol Cyfnod Cynradd
- 1** Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr
- 11** Ysgol Uwchradd
- 1** Ysgol 3 i 18 oed
- 1** Uned Cyfeirio Disgyblion
- 1** Ysgol Arbennig
- 2** Colegau addysg bellach ar draws Bwrdeistref Caerffili
- 250+** Darparwr gofal plant cofrestredig



Cyd-destun Caerffili

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, consortiwm addysg y De-ddwyrain, yn cefnogi rôl awdurdod lleol Caerffili o gyflawni eu gweithrediadau statudol, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella a hyrwyddo canlyniadau gwell i ddisgyblion.

Mae darpariaeth ieuencid ar draws y fwrdeistref yn cefnogi mynediad cyffredinol a chefnogaeth wedi'i thargedu i bobl ifanc a'u teuluoedd, ynghyd â darpariaeth barhaus o wasanaethau llyfrgell a chanolfannau cymunedol o ansawdd.

Mae ein darpariaeth addysg i oedolion yn cynnig cyfleoedd dysgu o ansawdd ar draws y fwrdeistref ar gyfer unigolion sy'n hŷn nag oedran ysgol.

Mae lefelau sylweddol o amddifadedd yn y Fwrdeistref, ac mae 29.7% o ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn byw yn 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae 14 o'r 110 ardal ym mwrdeistref sirol Caerffili yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae gan 20.3% o ddisgyblion Caerffili sydd ar gofrestr ac sydd o oedran ysgol statudol hawl i brydau ysgol am ddim (yn ôl Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2018), sy'n gosod yr awdurdod yn y 18fed safle o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Er bod gostyngiad wedi bod yng nghanran y dysgwyr ym mwrdeistref sirol Caerffili sy'n byw mewn tai lle nad oes rhywun yn gweithio, mae'r ganran yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, a dyma'r awdurdod lleol uchaf ond un yn y de-ddwyrain.

Mae digartrefedd yn gostwng yn genedlaethol, ac mae gan fwrdeistref sirol Caerffili gyfradd lawer uwch o atal digartrefedd na'r cyfartaledd yng Nghymru ac ar draws ardaloedd eraill yn y rhanbarth.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymroddedig i daclo achosion o dlodi, ac mae'n sicrhau bod y pum rhaglen grant gwrth-dlodi yn gweithio ar y cyd i sicrhau eu bod yn llwyddo i gyrraedd y nifer fwyaf o bobl sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r Cyngor wedi nodi 'gwella cyfleoedd addysg i bawb' fel ei Amcan Llesiant cyntaf, ac mae wedi ymrwymo i raglen uchelgeisiol o fuddsoddi mewn ysgolion 21ain ganrif.

Mae Band A rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn agosáu at ei derfyn, ac mae tair ysgol newydd wedi'i hadeiladu a thair ysgol wedi'u gwella. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gytuno ar y cyllid i ddatblygu rhaglen Band B, sydd yr un mor uchelgeisiol.

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen fuddsoddi fentrus arall sydd wedi'i dylunio i ddatblygu is-adeiledd cludiant a chyswllt, ynghyd â chynyddu cyflogaeth a phrentisiaethau i hyrwyddo adfywio cymunedau mewn modd cadarnhaol.

Cyd-destun Caerffili

Dalen Ddata Cyrhaeddiad Caerffili 2018

Mae'r tabl isod yn nodi perfformiad y Cyngor a Chyfartaledd Cymru ar draws pob un o'r cyfnodau allweddol dros y bedair blynedd ddiwethaf:

- ❖ Cyfnod Sylfaenol (CS) Disgyblion 3-7 oed
- ❖ Cyfnod Allweddol 2 (CA2) – Disgyblion 7-11 oed
- ❖ Cyfnod Allweddol 3 (CA3) – Disgyblion 12-14 oed
- ❖ Cyfnod Allweddol 4 (CA4) – Disgyblion 14-16 oed
- ❖ Cyfnod Allweddol 5 (CA5) – Disgyblion 16-18 oed

Tuedd		2015	2016	2017	2018	¹ Gwelliant Blwyddyn
Cyfnod Sylfaen Dangosydd Cyfnod Sylfaen	Caerffili	89.2	88.6	88.9	86.7	-2.2
	Cymru	86.8	87.0	87.3	82.6	-4.7
CA 2 Dangosydd Cyfnod Allweddol	Caerffili	87.4	90.4	90.1	89.7	-0.4
	Cymru	87.7	88.6	89.5	89.5	0.0
CA 3 Dangosydd Cyfnod Allweddol	Caerffili	80.3	82.0	84.1	87.8	3.7
	Cymru	83.9	85.9	87.4	88.1	0.7
CA 4 Torthwy L2 Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg	Caerffili	52.6	53.0	49.9	46.9	-3.0
	Cymru	57.9	60.3	54.6	55.1	0.5
CA 5 Trothwy L3	Caerffili	97.7	97.1	96.8	97.5	0.7
	Cymru	97.0	98.0	97.1	97.6	0.5

Noder: Mae newidiadau wedi bod i arholiadau Cyfnod Allweddol 4 ers 2017, sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau union gywir.

Cyrhaeddiad yn ôl Cyfnod Allweddol

- ❖ Mae Cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae'r gostyngiad yn 2018 yn llai na chyfradd Cymru. Ers 2016, mae cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gyfradd gwella rhwng 2015 a 2018 yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- ❖ Mae cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 3 yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, er bod y cyfradd gwella'n uwch na chyfradd Cymru.
- ❖ Mae cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dangos cyfradd ostwng gyflymach nag ar draws Cymru. Mae perfformiad yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae'r bwlch yn cynyddu.
- ❖ Mae cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 5 yn sefydlog, gyda lefel debyg o gyrhaeddiad yn 2018 fel oedd yn 2015. Mae perfformiad wedi mynd o fod yn uwch na Chymru yn 2015 i ychydig yn is yn 2018.

Data wedi'u tynnu o Daflen Data'r GCA ar gyfer Caerffili.

Cyd-destun Caerffili

Cyrhaeddiad yn ôl rhyw

- ❖ Rhwng 2015 a 2018, cynyddodd y bwlch rhwng y rhywiau yn y Cyfnod Sylfaen, oherwydd mwy o gwmp gan y bechgyn na'r merched, ac nawr mae'r bwlch yn fwy na bwlch rhwng y rhywiau cyfartalog Cymru.
- ❖ Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn lleihau y tro hwn, oherwydd mwy o welliant gan fechgyn na merched, ond mae'r bwlch yn dal i fod yn fwy na bwlch rhwng y rhywiau cyfartalog Cymru.
- ❖ Between Rhwng 2015 a 2018, cynyddodd y bwlch rhwng y rhywiau yng Nghyfnod Allweddol 3, ac mae'n dal i fod yn fwy na bwlch rhwng y rhywiau cyfartalog Cymru.
- ❖ Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn llai na chyfartaledd Cymru, ond mae wedi cynyddu rhwng 2015 a 2018 oherwydd mwy o gwmp gan fechgyn na merched.

Cyrhaeddiad yn ôl Prydau Ysgol am Ddim

- ❖ Yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, roedd perfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim yn 2018 yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r bwlch rhwng disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion eraill yn llai nag ar draws Cymru yn y ddau gyfnod, o gymharu â chynnydd ym mwllch Cymru yn y Cyfnod Sylfaenol, a gostyngiad arafach ym mwllch Cymru yng Nghyfnod Allweddol 2.
- ❖ Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae perfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim nawr yn uwch na chyfartaledd Cymru, ar ôl bod yn is o 2014 i 2017. Mae'r bwlch rhwng disgyblion Prydau Ysgol am ddim a disgyblion eraill wedi lleihau'n sylweddol, ac erbyn hyn mae'n is na chyfartaledd Cymru.
- ❖ Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Yn 2018, lleihaodd y bwlch rhwng disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion eraill, ac mae'n llai na Chymru gyfan. Mae perfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion eraill wedi gostwng ers 2015, ac adlewyrchir hyn ar draws Cymru.


Presenoldeb

- ❖ Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros yn sefydlog, oddeutu 94.5%.
- ❖ Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu ar y cyfan ers 2015, ar gyfradd gyflymach nag ar draws Cymru, ond mae lefelau presenoldeb yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 0.4pp.
- ❖ Mae absenoldebau heb awdurdod mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu i 0.9% ers 2015, ond mae'n is na ffigur Cymru, sef 1.1%.
- ❖ Mewn ysgolion uwchradd, mae absenoldebau heb awdurdod wedi cynyddu ers 2015, o 1.7% i 2.2%. Mae ffigur Cymru wedi cynyddu o 1.3% i 1.6% y tro hwn.

Cyd-destun Caerffili

Gwaharddiadau

- ❖ Ers 2014/15, mae cynnydd cyffredinol wedi bod ar lefel cynradd ac uwchradd mewn gwaharddiadau sy'n bum diwrnod neu lai.
- ❖ Ers 2014/15 mae cynnydd sylweddol wedi bod ar lefel uwchradd o ran gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy. Mae wedi bod yn gymharol sefydlog ar lefel cynradd, gan godi rhywfaint mewn pedair blynedd.
- ❖ Caerffili sydd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau am chwe diwrnod neu fwy am bob 1000 o ddisgyblion yn y rhanbarth, ar lefel cynradd ac uwchradd. Ar lefel cynradd, y gyfradd oedd 1.4 o gymharu â ffigur rhanbarthol o 0.6, ac ar lefel uwchradd, y gyfradd oedd 12.0 o gymharu â 5.7 ar draws y rhanbarth.
- ❖ Nid oes gwaharddiadau parhaol wedi bod o ysgolion cynradd yn y pedair blynedd ddiwethaf.
- ❖ SeMae gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu o 9 yn 2014/15 i 25 yn 2017/18, gyda rhywfaint o ostyngiad lle cafwyd 28 gwaharddiad yn 2016/17.



Egwyddorion Arweiniol

Cytunwyd ar yr egwyddorion arweiniol canlynol hyn gan Bartneriaeth Addysg Caerffili, i fod yn sail i waith yr holl bartneriaid yn eu hymgais i sicrhau rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu. Mae'r egwyddorion yn sail i'r strategaeth hon, a byddant yn llywio gwaith ac ymddygiad pob cyfrannwr.

Arweinyddiaeth

Bydd arweinyddiaeth ar bob lefel i sicrhau rhagoriaeth mewn dysgu. Bydd angen amrywiaeth o ddulliau sy'n gweddu i wahanol amgylchiadau. Fodd bynnag, er mwyn i arweinyddiaeth fod yn gynaliadwy, yn effeithiol ac i gael yr effaith orau bosib, rydym o'r farn mai'r arddull dosbarthu sydd orau gan amlaf.

Mae hyn yn grymuso pawb i fod yn rhan o'r broses wneud penderfyniadau, ac i gymryd cyfrifoldebau drwy ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel. Rydym yn atebol i ddysgwyr yn ein cymuned am y canlyniadau maen nhw'n eu cyflawni, ac ein cyfrifoldeb cyfunol ni yw sicrhau y caiff anghenion eu diwallu.

Arlwy dysgu

The Mae'r arlwy dysgu yn deillio o'r ystod o sefydliadau a gwasanaethau yng Nghaerffili, ac ansawdd y cydweithio a'r gwaith partner rhyngddynt. Bydd yr arlwy dysgu fydd ar gael yn eang, yn gyfoethog, yn amrywiol ac yn berthnasol i anghenion dysgwyr, er mwyn i bob un gael mynediad at lwybr gyrfaol a dysgu gydol oes priodol.

Ein gweithlu

Rydym yn cydnabod mai ein gweithlu yw'r adnodd pwysicaf wrth gefnogi ein dysgwyr.

Mae eu llesiant yn hollbwysig. Mae angen tîm brwdfrydig a chymelledig sy'n rhannu uchelgais i lwyddo.



Egwyddorion Arweiniol

Byddwn yn cynnig mynediad at ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu i roi'r sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen ac sy'n berthnasol i'w swyddi, a bydd y gweithlu'n rhan lawn o ddylunio'r cyfleoedd hyn ar y cyd. Mae gan y gweithlu cyfan hawl i gael i drin yn deg, gydag urddas a pharch. Rydym yn ymroddedig i benodi'r gweithlu gorau posib, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cael profiadau ar draws lleoliadau dysgu pan fo'n briodol.

Canolbwyntio ar y gymuned

Bydd gan yr holl randdeiliaid gyfle i gymryd rhan i siapio'r ddarpariaeth gyda'r nod o sicrhau rhagoriaeth mewn dysgu. Bydd darpariaeth ddysgu wrth galon ein cymunedau, yn gweithredu fel hwb ac yn ymestyn allan at ein preswylwyr. Bydd gweithio gyda theuluoedd yn cynyddu'r cyfleoedd dysgu er mwyn i ddysgwyr fyw bywydau fel oedolion sy'n rhoi boddhad iddynt.

Cydweithio a gwaith partner ar gyfer dysgu gydol oes

Yng Nghaerffili, mae darparu addysg a chyfleoedd dysgu yn digwydd gyda'r dydd a'r nos, ar y penwythnosau a thrwy gydol y flwyddyn, p'un a gaiff ei ddarparu gan ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach, gwasanaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned, y Gwasanaeth Ieuentid, neu'r ystod eang o asiantaethau partner o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae cyfoeth ac amrywiaeth y gwasanaethau addysgol, ynghyd â'r cydweithio a'r gwaith partner rhyngddynt, yn gwella ansawdd dysgu yn y fwrdeistref sirol.

Ymatebol

Byddwn yn ymatebol i anghenion dysgu ein cymuned ac yn sicrhau y caiff yr anghenion hynny eu hadlewyrchu yn y cyrsiau a'r cyfleoedd a fydd yn cael eu cynllunio a'u darparu. Byddwn hefyd yn rhagweithiol, yn hyblyg ac yn arloesol yn ein dull tuag at fentrau a gofynion sgiliau cyflogwyr.

Gwytnwch

Byddwn yn sicrhau y caiff gwytnwch ei ddatblygu ar lefel unigol a sefydliadol. Bydd gwytnwch unigol yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu pawb i reoli heriau a phroblemau, i ddysgu a defnyddio sgiliau megis dyfalbarhad ac optimistiaeth, ac i ymdrin â sefyllfaoedd newydd. Bydd gwytnwch sefydliadol yn canolbwyntio ar sut gallwn addasu i'r heriau byddwn ni'n eu hwynebu, ond bydd hefyd yn ystyried yr unigolyn mewn sefydliad, a'r prosesau a'r diwylliant y mae'r unigolion hynny'n gweithio gyda nhw o ddydd i ddydd.

Egwyddorion Arweiniol

Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg wrth galon ein huchelgais i gyflawni rhagoriaeth. Drwy ddathlu, hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, byddwn yn sicrhau y bydd pob rhanddeiliad yn elwa ar y cyfoeth o gyfleoedd dysgu a chyfleoedd diwylliannol.

Cefnogaeth effeithiol

Mae cefnogaeth effeithiol yn rhan hanfodol o'n dyhead am ragoriaeth. Drwy bartneriaethau wedi'u creu ar y cyd, cymorth arbenigol, cydweithio a gwaith mentora, bydd ymrwymiad i gefnogi dysgwyr, y gweithlu ac arweinwyr yn unol â'u hanghenion neu eu hawliau penodol, ynghyd â'r llwybr o'u dewis.

Dathlu llwyddiant

Byddwn yn sicrhau y caiff llwyddiannau a chyflawniadau eu cydnabod a'u dathlu'n iawn. Rhaid adlewyrchu hyn yn ein perthnasau gweithio dydd i ddydd, ynghyd â thrwy ddulliau eraill megis y cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau traddodiadol, digwyddiadau lleol, a chyfranogiad mewn cystadlaethau. Byddwn yn dathlu llwyddiant y dysgwyr a'r gweithlu, timau ac unigolion, drwy'r gymuned.

Herio adeiladol

Byddwn yn ffynnu mewn diwylliant o hunan-adlewyrchu a her gyfartal. Fel rhanddeiliaid, byddwn yn cynnig ein syniadau ac yn ymddiried yn ein gilydd i gynnig safbwyntiau i gwestiynu'r cynigion fel eu bod yn cael eu mireinio. Dylai heriau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a'u rheoli mewn ffordd sy'n barchus tuag at y naill a'r llall.

Defnydd effeithiol o adnoddau

Bydd adnoddau'n cael eu rhannu ar draws sectorau i annog gweithgareddau ar y cyd, gan sicrhau'r effaith orau bosib ar ganlyniadau dysgwyr. Mae gan arweinwyr rôl sylweddol mewn datblygu partneriaethau cydweithredol i sicrhau y caiff adnoddau, pobl a deunyddiau eu r heoli a'u defnyddio'n effeithiol.

#TîmCaerffili

Ein Naratif a'n Cenhadaeth

Mae'r dull wedi'i alinio'n uniongyrchol â phedwar amcan galluogi ym mholisi Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.

Mae Cynllun Busnes 2019/20 y Gwasanaeth Cyflawni Addysg hefyd wedi'i lunio o gwmpas yr amcanion hyn, ac felly gellir alinio'r cyfeiriad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn glir.

"Mae pob plentyn yn haeddu eiriolwr – oedolyn fydd yn aros wrth eu hochr, sy'n deall grym cysylltiad ac sy'n mynnu eu bod nhw y gorau y gallan nhw fod."

Rita Pierson

Datblygu Galwedigaeth Addysg o Ansawdd

Mae gan y systemau addysg sy'n perfformio orau yn y byd addysgwyr a staff cynorthwyol bywiog ac ymgysylltiol, sy'n ymroddedig i ddysgu parhaus. Bydd Caerffili'n cefnogi'r gweithlu proffesiynol i fod yn ddysgwyr gydol oes, sy'n adlewyrchu ac yn gwella eu harferion eu hunain i gymell ac i ysbrydoli dysgwyr.

Ein nod fydd creu'r amodau sy'n galluogi ein gweithlu i:

- ❖ Gyrraedd safonau uchaf arferion proffesiynol achrededig a sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad at gynnwys bywiog, penodol a diddorol ar bob adeg.
- ❖ Herio eu hunain i ddysgu gan y gorau, drwy archwilio arfer ac addysgeg yn rheolaidd mewn ysgolion sy'n perfformio'n dda ar draws y rhanbarth, a'u hymgorffori i arferion yn Ysgolion Caerffili.
- ❖ Bod yn gadarnhaol, yn wydn, yn fywiog ac yn dda, a chael mynediad at gefnogaeth llesiant pe bai rhywbeth yn newid.



#TîmCaerffili

Arweinwyr Ysbrydoledig yn Cydweithio i Godi Safonau

Mae arweinwyr ysbrydoledig wedi'u paratoi a'u cefnogi i arwain eu sefydliadau drwy'r heriau sydd o'u blaenau. Maent yn hyrwyddo ac yn cefnogi arweinyddiaeth effeithiol a chydweithredol, ac maent yn ganolog i wireddu amcanion a blaenoriaethau ar gyfer dysgwyr yng Nghaerffili ac i'r agenda diwygio cenedlaethol.

Er mwyn datblygu gwelliannau cynaliadwy a hirdymor ym mhob ysgol yng Nghaerffili, byddwn yn datblygu amgylchedd sy'n cefnogi ein harweinwyr addysgol i gydweithio er mwyn:

- ❖ Cyrraedd safonau uchaf arferion arweinyddiaeth proffesiynol achrededig ym myd addysg.
- ❖ Cael mynediad rheolaidd at hyfforddiant a mentora o ansawdd o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector addysg, er mwyn mireinio arferion arwain yn barhaus.
- ❖ Herio eu hunain i ddysgu gan y gorau, drwy archwilio arferion arwain yn rheolaidd mewn ysgolion sy'n perfformio'n dda ar draws y rhanbarth, a'u hymgorffori i arferion Ysgolion Caerffili.
- ❖ Cyfathrebu a rhwydweithio gyda chyfoedion sy'n arwain yn agored, yn dryloyw ac yn rheolaidd i rannu arferion da, heriau a chynlluniau i wella.
- ❖ Sicrhau bod gweithgarwch gwella yn canolbwyntio ar wella ansawdd y dysgu ac addysgu sydd ar gael i'n dysgwyr.
- ❖ Asesu'r cynnydd a wneir yn ein hysgolion mewn dull agored, eofn, a thryloyw, a bod yn atebol am berfformiad ysgolion ac yn gyfrifol am ddatblygiad cynlluniau a fydd yn gyrru gwelliant.
- ❖ Bod yn gadarnhaol, yn wydn, yn fywiog ac yn dda, a chael mynediad at gefnogaeth llesiant pe bai rhywbeth yn newid.
- ❖ Hyrwyddo'r weledigaeth, yr egwyddorion arweiniol a'r cerrig sylfaen a nodwyd yn y strategaeth hon.

#TîmCaerffili

Ysgolion Cryf a Chynhwysol sy'n ymroddedig i Ragoriaeth, Tegwch a Llesiant

Bydd Caerffili yn ymdrechu i sicrhau y caiff ei dysgwyr eu cefnogi a'u bod yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel, cefnogol a meithringar, fel na ddylai unrhyw her atal unrhyw arweinydd rhag cyrraedd eu potensial.

Dylai ysgolion yng Nghaerffili:

- ❖ Gynnig cyfleoedd dysgu diddorol, heriol a chynhwysol sy'n bodloni anghenion pob dysgwr.
- ❖ Sicrhau cymaint o fynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd â phosib, drwy godi lefelau presenoldeb gan gyflwyno strategaethau newydd arloesol, a rhannu'r rhain yn eang pan wneir cynnydd da.
- ❖ Gwneud popeth y gallant i leihau lefelau gwaharddiadau a, thrwy wneud hynny, gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i ddysgwyr fod yn yr ysgol.
- ❖ Bod â strategaethau effeithiol ac arloesol ar waith i gynyddu cyflawniadau dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n gwella ei hun

Bydd addysg yng Nghaerffili yn system fydd yn gwella ei hun, wedi'i hadeiladu ar asesu, gwerthuso, gwella, adlewyrchu a mireinio yn seiliedig ar amcanion a thystiolaeth.

Dylai ysgolion yng Nghaerffili:

- ❖ Deimlo eu bod wedi'u cefnogi a'u hannog i fod yn hollol agored, gonest a thryloyw pan yn adrodd ar eu safle cymharol, y cynnydd a wnaed hyd yma a chynlluniau i wella sy'n seiliedig ar ddull hunanwerthuso cadarn.
- ❖ Bod yn fodlon cryfhau prosesau hunanwerthuso a safleoedd ysgolion drwy her a chymedroli allanol.
- ❖ Bod â strategaethau cymhwysol clir a chyson i sicrhau cynnydd i bob dysgwr ac i wella canlyniadau i ddisgyblion.
- ❖ Bod ag ymdeimlad o berthyn a chysylltiad i ethos #TîmCaerffili a'r rhanbarth, a chael dyhead i rannu gwybodaeth a chodi safonau ar draws y system.
- ❖ Ymwneud yn llawn â'r model rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion.
- ❖ Dathlu eu llwyddiannau'n eang ac yn falch.

Nodi'r Heriau

Er mwyn nodi'r heriau sydd angen eu goresgyn, mae'n hanfodol bod safle cyfredol y system addysg yng Nghaerffili wedi'i gyfleu'n glir mewn modd cytbwys, diamwys ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Y prif elfennau sy'n helpu i fframio'r safle cyfredol yw:

1. Prosesau hunanwerthuso'r cyngor sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth i nodi cryfderau a meysydd i wella.
2. Canfyddiadau'r cyfarfod uwchgynhadledd a gynhaliwyd â phob ysgol uwchradd yn hydref 2018.
3. Canlyniadau gweithgarwch hunanwerthuso, adroddiadau'n seiliedig ar dystiolaeth a'r Cynllun Busnes blynyddol a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.



Nodi'r Heriau

Hunanwerthuso Gwasanaeth Addysg Caerffili

Mae datganiad safle hunanwerthuso presennol y Cyngor yn dod i'r casgliad mae'r canlynol yw'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella:

b1

Gwella canlyniadau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Canfod unrhyw gwmp mewn perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, ac ystyried strategaethau i wella.

b2

Aros am gadarnhad o fesurau canlyniadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a 5 gan Lywodraeth Cymru. Ystyried strategaethau amgen er mwyn craffu ar ddata perfformiad yn effeithiol yn sgil newidiadau i fesurau adrodd ar berfformiad. Dylai'r data fod yn seiliedig ar:

- ❖ Gategoreiddio cenedlaethol;
- ❖ Cynnydd yr ysgolion sy'n peri pryder;
- ❖ Canlyniadau arolygiad Estyn a chynnydd ysgolion;
- ❖ Ymgysylltiad ysgolion yn y broses diwygio cwricwlwm;
- ❖ Gweithredu canllawiau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â 'cherdyn sgorio' cenedlaethol.

b4

Mireinio gweithdrefnau presennol i fonitro a thracio 'risg' disgyblion, i sicrhau y caiff pob categori bregusrwydd ei ystyried. Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid gwella ysgolion i fonitro, herio a chefnogi ysgolion er mwyn codi cyrhaeddiad y disgyblion hyn.

b5

Sicrhau bod y dull gosod targedau yn canolbwyntio ar ddyhead i bob dysgwr, yn hytrach nag atebolrwydd risg uchel.

b6

Adeiladu ar y cynnydd diweddar mewn data presenoldeb i gyflawni gwelliannau dros amser. Parhau i adeiladu capasiti mewn ysgolion er mwyn codi lefelau presenoldeb yn effeithiol.

b7

Lleihau nifer y gwaharddiadau ar draws ysgolion uwchradd yn unol â data rhanbarthol a chenedlaethol. Cefnogi ysgolion i rannu arferion da ar draws rhanbarth y de-ddwyrain.

b8

Parhau i ddatblygu dulliau ar gyfer gwerthuso effaith mae gwasanaethau addysg yn ei chael ar lesiant ac agweddau tuag at ddysgu. Diwygio strategaethau presennol yn seiliedig ar ganfyddiadau.

b9

Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i wella ansawdd addysg i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ymhellach.

b10

Gwella dull nodi a chanlyniadau ar gyfer disgyblion llai abl drwy roi'r Ddeddf Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith yn llwyddiannus.

b13

Gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth gwella ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus' yn effeithiol.

b14

Parhau i fireinio a gwella prosesau hunanwerthuso drwy ethos o 'atebolrwydd cyfunol'. Ymgysylltu â'r pecyn cymorth hunanwerthuso cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu gan Estyn, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac ymarferwyr ar hyn o bryd. Defnyddio'r pecyn cymorth i lywio proses hunanwerthuso'r Awdurdod Lleol.

Nodi'r Heriau

Canlyniad y Cyfarfodydd Uwchgynhadledd

Ym mis Awst, cyhoeddodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gyngor proffesiynol i bob Awdurdod Lleol, a oedd yn darparu dadansoddiad manwl o ddata cyrhaeddiad, presenoldeb a gwaharddiadau presennol a hanesyddol ar gyfer pob ysgol uwchradd yng Nghaerffili yng Nghyfnod Allweddol 4, gyda chmau gweithredu i'w hystyried.

Yn unol â Phrotocol yr Uwchgynhadledd y cytunwyd arno, defnyddiodd uwch staff o Wasanaeth Addysg Caerffili a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg y cyngor proffesiynol a data lleol i gynnal diagnosis cynhwysfawr o'r canlyniadau, gyda'r nod o gytuno ar lwybrau ymholi cychwynnol ar gyfer y cyfarfodydd uwchgynhadledd i ddod.

Roedd y cyfarfodydd uwchgynhadledd yn dilyn fformat cyson gyda phennaeth pob ysgol uwchradd, ac, mewn rhai achosion, Cadeirydd y Llywodraethwyr ac uwch arweinwyr eraill yr ysgol, yn adrodd ar berfformiad eu hysgol ac yn rhannu eu cynlluniau i wella perfformiad yn y blynyddoedd i ddod.

Drwy'r cyfarfodydd, dechreuodd nifer o themâu cyson ddod i'r amlwg ac, lle roedd ysgolion wedi llwyddo goresgyn tueddiadau ehangach, nodwyd rhai dulliau lleol arloesol a allai gael effaith ehangach pe baent yn cael eu rhannu'n ehangach.

Mae'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau'r Uwchgynhadledd wedi'u nodi isod, ac mae rhywfaint o'r arloesedd a nodwyd yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu strategol atodedig:

Arweinyddiaeth

Dangosodd pob arweinydd ymrwymiad i wella canlyniadau pob disgybl.

Mae angen i arweinwyr allu cael mynediad at gefnogaeth a chyfleoedd datblygu o ansawdd, a gallu manteisio arnynt yn llwyr.

Mae angen i arweinwyr sicrhau bod systemau hunanwerthuso yn effeithiol, wedi'u gwreiddio ac yn cael eu mireinio'n gynyddol fel bod modd crisialu cryfderau a meysydd i wella. Dylai'r prosesau hyn dreiddio drwy bob lefel yn yr ysgol.

Mae angen i arweinwyr allu dadansoddi ac egluro perfformiad yr ysgol. Dylai fod ganddynt flaenoriaethau clir a'u bod yn nodi strategaethau priodol i yrru gwelliant. Dylid rhannu'r cyfrifoldeb hwn ar bob lefel. Dylai ysgolion cynradd yn y clwstwr fabwysiadu'r blaenoriaethau hyn lle bo'n briodol.

Cwestiynwyd gwerth gosod targedau a gwirio cynnydd. Mae systemau tracio yn amrywio, ond nid ydynt bob tro'n lledaenu drwy'r ysgol gyfan. Yn ôl yr arfer gorau, mae cysylltiadau cryf â systemau Cyfnod Allweddol 2.

Mae'r defnydd o ddangosyddion allweddol, meincnodi a chofnodi cynnar weithiau'n ymddangos fel petaent yn gyrru ymddygiadau nad ydynt yn arwain at lwybr priodol i bob dysgwr.

Mae cyfraniad Cyrff Llywodraethwyr yn amrywio, ond nid yw pob un yn rhan ystyrion o brosesau perthnasol megis hunanwerthuso. Mae hyfforddiant a datblygiad i lywodraethwyr hefyd yn faes i'w wella yn gyffredinol.

Nodi'r Heriau

Canlyniadau

Mae nifer sylweddol o ddisgyblion sy'n dal i fethu â chyrraedd mesuriad cynhwysol lefel 2 oherwydd un pwnc - fel arfer Saesneg, Cymraeg neu Fathemateg. Mae her y gydberthynas hon yn cynyddu yn y mesur Capio 9. Mae lefel llythrennedd yn bryder i'r rhan fwyaf o ysgolion ac mae angen canolbwyntio ar hyn yn fwy ym Mlwyddyn 7, 8 a 9. Mae rhywfaint o waith da yn digwydd gydag ysgolion cynradd, ond mewn camau datblygu cynnar mae hyn.

Mae perfformiad grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig bechgyn a dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn bryder, ac weithiau mae strategaethau i wella'n ymddangos yn brin. Mae cyfraddau gwahardd yn eithriadol o uchel mewn rhai ysgolion o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae presenoldeb wedi gwella yn y rhan fwyaf o ysgolion, ond mae'n dal i fod yn her.

Darpariaeth

Nid yw pob ysgol wedi manteisio ar y cyfleoedd i ymweld ac i ddysgu gan arferion gorau yn y rhanbarth a'r tu hwnt. Mae angen mireinio a chynyddu'r ffocws ar anghenion addysgeg. Mae lefelau ymgysylltu â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Dysgu a dysgu proffesiynol cwricwlwm newydd yn ymddangos fel petai'n amrywio.

Y Cynllun Gweithredu Strategol

Datblygwyd Cynllun Gweithredu fel mecanwaith i fynd i'r afael â materion a heriau penodol a nodwyd sydd angen gwella yn adran 6 y strategaeth hon. Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau bod y camau a gymerir yn effeithiol, yn amserol a'u bod yn cael yr effaith ddymunol.

Bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i adolygu fel sy'n briodol drwy Fwrdd Cyngori ar Addysg y Cyngor sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar, gydag adroddiadau cynnydd yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor,

Cyfarfodydd Datblygu Polisi
a'r Pwyllgor Craffu Addysg
am Oes.



Ein Meini Prawf:

Canlyniadau: Mae lefelau datblygu sgiliau yn gwella ac mae cynnydd sylweddol mewn canlyniadau Saesneg / Cymraeg a Mathemateg, a adlewyrchir yn mesur Capio 9. Mae systemau olrhain yn galluogi gosod targedau'n effeithiol, gan nodi'r disgyblion sy'n agored i dangyflawni, fel bod ymyriadau effeithiol yn cael eu darparu ar draws pob cyfnod dysgu.

Darpariaeth: Bydd profiadau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel ar gael i bob dysgwr, waeth beth fo'r lleoliad na bregusrwydd. Bydd ein gweithlu yn cael ei ysgogi a'i ymgysylltu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a bydd llwybrau pwrpasol sy'n arwain at gyrchfannau priodol yn cael eu cynllunio i sicrhau mwy o lwyddiant.

Arweinyddiaeth: Mae Arweinyddiaeth Ysbrydoledig wedi'i chyfarparu'n dda ar bob lefel i gyflwyno rhagoriaeth mewn dysgu. Mae arweinwyr yn wydn, yn cydweithio ar draws y rhanbarth a thu hwnt i ddysgu o'r arferion gorau. Mae arweinwyr yn uchafu effaith eu hadnoddau ac yn rheoli newid yn effeithiol.

Camau Gweithredu Allweddol o'r Cynllun Strategol:

Gyrru arferion trosglwyddo effeithiol fel bod dysgwyr yn cael profiadau cyson, o ansawdd uchel ac yn gallu cyflawni targedau uchelgeisiol a osodir ar bob cam o'u datblygiad.



Cefnogi ysgolion a theuluoedd dysgwyr i ddiwallu anghenion disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.



Arfogi arweinwyr ymhob lefel i wella hunanarfarnu, cynllunio a rheoli adnoddau er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ganlyniadau.



Galluogi Llywodraethwyr i herio'r ysgol yn effeithiol i wella ar gyflymder a graddfa.



Gweithredu rhaglen ddatblygu gynhwysfawr achrededig i gryfhau cydnherthedd uwch arweinyddiaeth a'r gallu i arwain newid yn ogystal â gwella eglurder cyfathrebu ar draws yr ysgol.

Nodiadau:





